
# Templed Briff creu lleoedd creadigol

09

Pob llun o Raglen Beilot Hwb i Drefi Cymru, Mawrth 2026.
Credyd: Creative Communities International, DCFW, Vale of Glamorgan Council.

# Templed Briff creu lleoedd creadigol

## Gweler y ddogfen dempled ynghlwm.



Creu Lleoedd Cymru
Placemaking Wales

**TEMPLED**
**BRIFF CREU LLEOEDD CREADIGOL**
**AR GYFER [ENW'R PROSIECT A'R LLE]**

Mae'r ddogfen hon yn darparu templed i awdurdodau lleol ei lenwi a'i addasu ar gyfer penodi a chomisiynu gwneuthurwyr lleoedd creadigol sy'n ymgysylltu'n gymdeithasol i weithio gyda chymunedau i gyd-ddylunio a chyflawni prosiectau ar raddfa fach a chanolig sy'n gwneud gwahaniaeth. *Sylwer: Canllaw yn unig yw'r dogfennau hyn. Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am sicrhau bod prosesau caffael teg a chynhwysol yn cael eu dilyn yn unol â gofynion lleol a chenedlaethol.*

Mae'r testun mewn coch yn rhoi awgrymiadau a chanllawiau ar lenwi'r templed, a dylid ei ddileu cyn ei gyhoeddi. Dylid disodli'r testun glas gyda'r wybodaeth sy'n benodol i'r dref, y prosiect a'r awdurdod lleol. Ceir hefyd ddogfen ar wahân **08 CANLLAW BRIFFIO CREU LLEOEDD CREADIGOL** i gyd-fynd â'r templed hwn ac i helpu i'w gwblhau, ei ddosbarthu a'i ddefnyddio.

Cyhoeddodd [Awdurdod lleol] Gynllun Creu Lleoedd ar gyfer [enw'r dref] ym mis [mis, blwyddyn]. Mae'r cynllun yn nodi gweledigaeth ar gyfer dyfodol [tref], ac rydym eisiau cynnwys y gymuned leol a busnesau wrth wireddu'r weledigaeth. Rydym yn deall y gwerth y gall ymarferwyr creadigol, artistiaid a dylunwyr ei gynnig i ymgysylltu â'r gymuned a chreu lleoedd, ac rydym yn dymuno penodi [rôl: e.e. ymarferydd creu lleoedd creadigol/trefolwr tactegol/arbenigwr ymgysylltu â'r gymuned/ysgogydd lleoedd/artist/rheolwr prosiect creu lleoedd] i [disgrifiad byr iawn o'r gwaith].

**Manylion y contract**

| | |
|---|---|
| Hyd: | [e.e. 3-9 mis, gydag estyniad posibl/Mawrth-Medi 2026] |
| Lleoliad: | [lle/tref] |
| Ffi: | [Ffi sefydlog: e.e. £6,000 yn seiliedig ar 15 diwrnod ar gyfradd £400 y diwrnod (gan gynnwys/heb gynnwys TAW)] *Cadwch o dan drothwy proses dendro ar raddfa fawr.* |
| Adnoddau: | [Bydd cyllideb ychwanegol/cymorth/lleoliad staff ALl ar gael ar gyfer cynhyrchu digwyddiadau/deunyddiau/gweithredu prosiectau a gwelliannau ar raddfa fach] Byddwch yn glir ynghylch beth fydd y ffi yn talu amdano a pha adnoddau/cronfeydd ychwanegol sydd ar gael. |
| Dyddiad cau: | [dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau: amser, dyddiad] |

Anogir masnachwyr unigol a phractisau bach i wneud cais.



Creu Lleoedd Cymru
Placemaking Wales